# Bro Morgannwg - Polisi Byw'n Annibynnol

| | |
|---|---|
| **Fersiwn Rhif:** | **1a** |
| **Statws:** | **Cymeradwywyd** |
| **Math:** | **Cyhoeddus** |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | |
| **Cyswllt y Fro:** | **Laura Eddins, Swyddog Polisi a Sicrwydd Ansawdd**<br>**leeddins@valeofglamorgan.gov.uk** |

## Cynnwys


1. **Cyflwyniad a nodau** .... 3
2. **Cyd-destun Deddfwriaethol** .... 3
3. **Cyd-destun a Chwmpas** .... 4
4. **Egwyddorion** .... 5
5. **Dyletswyddau a Gofynion Allweddol** .... 6
6. **Safonau** .... 7
7. **Yr hyn na ellir defnyddio grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar ei gyfer** .... 9
8. **Rheoli Risg** .... 10
9. **Meini Prawf Arweiniol Pellach** .... 10
10. **Cymeradwyo ac Adolygu'r Polisi** .... 10


### Fersiynau blaenorol

| Fersiwn | Statws | Disgrifiad | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| 1a | Cyfredol | Drafft | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

*Gallai dogfennau wedi'u hargraffu neu eu lawrlwytho fod yn hen. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn darllen y dogfennau mwyaf diweddar a chyfredol sydd ar gael ar y safle mewnrwyd leol neu Sharepoint.*

## 1. Cyflwyniad a nodau

Mae'r polisi hwn yn amlinellu strategaeth Cyngor Bro Morgannwg i hwyluso darpariaethau addasu sy'n diogelu annibyniaeth unigolion yn eu cartrefi, yn enwedig y rhai sydd angen cymorth. Mae'n sefydlu canllawiau, yn hysbysu ymholwyr am y darpariaethau sydd ar gael, ac yn mynd i'r afael ag anghenion unigol yn effeithiol.

Amcanion:

- Meithrin cydweithredu rhyngddisgyblaethol i sicrhau byw'n annibynnol i ddinasyddion cymwys.
- Cadw a gwella annibyniaeth yn y cartref trwy offer, grantiau ac atgyfeiriadau i hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau posibl eraill.
- Rhoi arweiniad clir ar wasanaethau disgwyliedig i ymgeiswyr.
- Ymgorffori cyngor ac arweiniad perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Polisi Byw'n Annibynnol yn annog unigolion i ffynnu gartref trwy sicrhau tryloywder, cydweithredu a chefnogaeth iddynt a'u hanghenion. Trwy weithredu'r polisi hwn, nod Cyngor Bro Morgannwg yw gwella annibyniaeth a lles dinasyddion, gan eu galluogi i gynnal eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd.

## 2. Cyd-destun Deddfwriaethol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw hyrwyddo Cymru iachach, lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei wella. Mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu hysgrifennu fel ymateb i'r ddeddf, canllawiau polisi, a'r dogfennau canlynol:

- Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy’n heneiddio - Llywodraeth Cymru, 2021
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol - Llywodraeth Cymru, Medi 2019.
- Taflen Ffeithiau Grant Cyfleusterau i'r Anabl – Ombwdsmon Cymru, Mawrth 2015.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Adolygiad o Addasiadau Tai, gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – Cymru, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2005.
- Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl: Newid y prawf modd – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2021.
- Deddf Hawliau Dynol 1998.
- Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.
- Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
- Deddf Tai 1985.

- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 sydd bellach yn disodli'r rhan fwyaf o Ddeddf 1985.

## 3. Cyd-destun a Chwmpas

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn cefnogi dinasyddion i gynnal annibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain trwy addasu eiddo.

Gall perchen-feddianwyr, perchnogion eiddo a thenantiaid preifat wneud cais am gymorth i addasu eu heiddo os oes rhywun angen cymorth gartref.

Dylai tenantiaid Cyngor y Fro gysylltu ag adran Tai y Cyngor am gymorth, tra bydd tenantiaid cymdeithasau tai eraill yn cael eu hasesu gan weithiwr proffesiynol cymwys addas mewn ymgynghoriad â'r gymdeithas dai berthnasol.

Gall addasiadau gynnwys gwelliannau i wresogi, goleuadau, cyfleusterau ymolchi, cymorth coginio, symudedd, a mynediad diogel i'r eiddo.

Gwneir atgyfeiriadau drwy'r Gwasanaeth Materion Lles trwy Ganolfan Gyswllt Un Fro. Gall dinasyddion gael eu hatgyfeirio i sefydliadau eraill am gymorth ychwanegol.

Mae ymholiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn agored i berchen-feddianwyr, perchnogion eiddo a thenantiaid preifat sydd angen addasiadau i fyw'n annibynnol a derbyn prawf modd. Gwneir ymholiadau ar gyfer grantiau drwy Ganolfan Gyswllt Un Fro.

Mae ymholiadau Grant Addasiadau yn ôl Disgresiwn yn agored i bawb sydd wedi'u nodi ag anghenion addasiadau a dinasyddion sy'n derbyn pridiant oes ar eu heiddo.

Gall y Cyngor gyfeirio ymgeiswyr at sefydliadau eraill a all ddarparu cymorth amserol ac effeithlon, megis cyngor ar fudd-daliadau neu fesurau effeithlonrwydd ynni.

Mae gwybodaeth hanfodol ar gyfer ymholiadau a cheisiadau yn cynnwys:

- Enw'r ymholwr.
- Os bydd rhywun yn gwneud ymholiad ar ran rhywun arall, bydd angen eu manylion nhw hefyd.
- Unrhyw wybodaeth am eich iechyd / eu hiechyd sy'n hysbysu'r ymchwiliad.
- Sut le yw'r cartref.
- Dealltwriaeth o unrhyw heriau sydd gan yr ymholwr a sut maent yn effeithio arnynt a'r hyn yr hoffent ei gyflawni o'r ymholiad a sut y bydd yn gwella eu bywyd.

Mae darparu'r wybodaeth a'r amcanion hyn yn hanfodol bwysig o ran sut rydym yn ymateb, a’r amserlenni sy’n gysylltiedig â'u hymholiad. Gorau po fwyaf o wybodaeth a gesglir. Mae amseroedd ymateb yn amrywio o 1-2 wythnos ar gyfer rhai gwasanaethau i gyfnodau hwy ar gyfer asesiadau cynhwysfawr a newidiadau i eiddo.

Rhoddir mwy o fanylion am broses y broses gymorth yn y ddogfen sy'n cyd-fynd â'r polisi - Canllaw Polisi Cymorth Byw'n Annibynnol Bro Morgannwg.

## 4. Egwyddorion

Mae'r egwyddorion canlynol yn llywio ein dull gweithredu:

- Caiff ymholiadau eu rheoli'n brydlon, gan eu cyfeirio at y cam nesaf priodol yn y broses. Gallai hyn gynnwys atgyfeirio ar gyfer asesiad, rhoi arweiniad i adrannau eraill y cyngor neu sefydliadau allanol sy'n gallu mynd i'r afael â'r ymholiad.

- Ymdrinnir ag ymholiadau sy'n gofyn am asesiad o fewn ein amserlenni penodedig, neu hysbysir ymholwyr am ddyddiad yr asesiad yn seiliedig ar gapasiti presennol y cyngor.

- Hysbysir ymholwyr am y gwasanaethau sydd ar gael gan y cyngor yn ystod yr asesiad, gan dynnu sylw at y ffaith nad yw'r gwasanaethau a gynigir yn cyd-fynd â'u disgwyliadau.

- Cymerir camau cyflym ar gyfer addasiadau bach, gan eu cwblhau yn ddelfrydol o fewn pedair wythnos i'r ymholiad cychwynnol.

- Gwerthusir addasiadau canolig a mawr yn unol ag Adran 6 o'r polisi hwn, gan ddilyn y diffiniadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Ar ôl cwblhau asesiadau, rhoddir esboniadau clir i ymholwyr o'r Grant Addasiadau yn ôl Disgresiwn neu'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gan gynnwys diben a goblygiadau pob grant.

- Mewn achosion lle mae'r cyngor yn penderfynu nad yw addasiad yn rhesymol neu'n ymarferol, hysbysir yr ymholwr am y rhesymau. Mae'r cyngor hefyd yn esbonio'r cynnig adleoli a'r broses apelio pe bai'r ymholwr yn dymuno bwrw ymlaen â'r naill neu'r llall o'r camau hynny.

- Cynhelir gwiriadau ar hap i sicrhau addasrwydd mân addasiadau, gan ddilysu eu bod yn diwallu'r anghenion y mae'r ymholwr wedi eu datgan.

- Mae addasiadau canolig a mawr yn destun gweithdrefn sicrwydd ansawdd i asesu a ydynt yn bodloni gofynion yr ymgeisydd yn effeithiol. Yn ogystal, sicrheir bod eitemau'n cael eu cofrestru'n briodol gyda gwarantau.

## 5. Dyletswyddau a Gofynion Allweddol

Mae'r polisi'n amlinellu'r dyletswyddau allweddol canlynol:

1. Ar ôl derbyn ymholiad neu atgyfeiriad, byddwn yn cychwyn y prosesu. Mae dau ddull gweithredu rydym yn eu dilyn:
    a. Byddwn yn mynd i'r afael ag agweddau o fewn ein galluoedd yn brydlon, megis addasiadau cyflym, darparu offer, a gosod Teleofal. Mae'r rhain yn darparu ar gyfer anghenion llai cymhleth ac efallai na fydd angen asesiad arnynt.
    b. Ar gyfer ymholiadau mwy cymhleth, bydd angen asesiad, a all gynnwys cyfnod aros.

2. Asesiadau: Bydd y tîm Therapi Galwedigaethol yn trefnu cyswllt ag ymgeiswyr sydd angen eu hasesu a byddant yn mynychu'r cartref os oes angen. Er y gall un ymweliad fod yn ddigonol, efallai y bydd angen ymweliadau ychwanegol yn dibynnu ar gymhlethdod a chyfranogiad adrannau eraill.

3. Addasiadau Bach: Bydd addasiadau bach, gan gynnwys rampiau cludadwy, rheiliau gafael, teleofal a mân weithiau, yn cael sylw o fewn oddeutu pythefnos (yn amodol ar y galw a'r gallu ar adeg ymholiad).

4. Addasiadau Canolig neu Fawr: Os oes angen addasiad canolig neu fawr ar yr ymchwiliad, bydd yr achos yn cael ei drosglwyddo i'r Tîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Byddant yn cydweithio â'r ymholwr i bennu maint y gwaith a chynorthwyo yn y broses o ymgeisio am grant.

5. Ar gyfer addasiadau canolig neu fawr, bydd yr ymgeisydd yn cael tri opsiwn:

    a. Grant Cyfleusterau i'r Anabl gyda Phrawf Modd, a thâl 10 mlynedd ar eu heiddo.
    b. Grant Addasu Dewisol heb Brawf Modd, ond gyda phridiant oes ar eu heiddo.
    c. Grant adleoli os nad yw'r addasiad arfaethedig yn bosibl neu'n ymarferol.

    Ar gyfer eiddo sydd â thenant, cynhelir trafodaethau unigol sy'n cynnwys pa addasiadau fydd yn cael eu hystyried neu'r potensial i symud i eiddo gwahanol.

    Ar gyfer addasiadau i blant, ni fydd prawf modd. Cynigir y codir tâl adfer o 10 mlynedd ar yr eiddo ar gyfer pob addasiad, os penderfynir bod manteision i'r addasiadau a'u bod yn ymarferol ac yn rhesymol. Mae angen cynhadledd achos ar gyfer pob addasiad dros £36,000.

6. Os bydd ymholwr yn dymuno apelio yn erbyn cynnig neu benderfyniad, trefnir cyfarfodydd ar y cyd rhwng y dinesydd, yr Asesydd, a'r Swyddog Grant/Asiant. Nod y cyfarfodydd hyn yw trafod a dod i gytundeb ynghylch gwaith neu gymhwysedd o fewn cwmpas y polisi hwn.

## 6. Safonau

**Maint Addasu**
Mae'r addasiadau bach, canolig a mawr y cyfeirir atynt yn y polisi hwn yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

| Categori | Natur y gwaith sydd ei angen | Enghraifft o waith |
|---|---|---|
| Mae Addasiadau Bach yn eitemau rhad, y gellir eu darparu'n gyflym iawn. Byddent yn cyd-fynd â'r disgrifiad o 'atal syrthio ar unwaith' neu 'ar frys ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty' a gellir eu hasesu a'u gosod o fewn dyddiau neu'r un diwrnod os yw'n fater brys. Gellir eu hadnabod gan nifer o wasanaethau iechyd/cymdeithasol/staff eraill sydd wedi'u hyfforddi'n briodol e.e. staff Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, staff Gofal a Thrwsio. | • Angen mân addasiad i'r cartref<br>• Ddim yn ddatrysiad arbenigol<br>• Nid oes angen caniatâd adeiladu / cynllunio<br>• Addasadwy/hyblyg<br>• Syml a greddfol<br>• Gwaith cynnal a chadw/neu wasanaethu bach iawn | • Rheiliau gafael<br>• Rheiliau grisiau<br>• Rampiau bach<br>• Tapiau hygyrch<br>• Blychau allweddi<br>• Rheiliau llaw ffon mop<br>• Rheiliau awyr agored<br>• Goleuadau allanol/grisiau • Socedi trydanol ychwanegol |
| Mae Addasiadau Canolig yn unrhyw beth nad yw'n cael ei ystyried yn fach neu'n fawr. | Efallai y bydd angen addasiadau mawr ar y cartref, ond nid oes angen caniatâd adeiladu/cynllunio. | • Cawod cerdded i mewn<br>• Lifftiau grisiau<br>• Rampiau mawr<br>• Cyfuniad o addasiadau wedi'u gosod fel un darn o waith |
| Addasiadau Mawr Gwaith yw hyn fydd yn gofyn am asesiadau arbenigol, caniatâd statudol, ac addasiadau mawr i eiddo, fel estyniadau a lifftiau llawr. Bydd angen asesiad Therapydd Galwedigaethol, ac efallai y bydd angen caniatâd cynllunio. | • Angen addasiadau mawr/newid strwythurol i'r cartref<br>• Angen atebion arbenigol/arloesol<br>• Angen caniatâd adeiladu/cynllunio<br>• Tymor sefydlog/parhaol/hirdymor | • Adeiladu estyniad i ddarparu ystafell wely a/neu ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod<br>• Lifft llawr<br>• Addasiadau strwythurol mewnol |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cymhleth/anghyfarwydd/ angen hyfforddiant a goruchwyliaeth<br>• Mae'r datrysiad yn gofyn am arbenigedd ar gyfer gosod a chynnal a chadw | sylweddol e.e. adleoli ystafell ymolchi neu gegin |

**Terfynau Ariannol**
Mae'r terfynau ariannol canlynol yn berthnasol i Grant Cyfleusterau i'r Anabl a Grant Addasu Dewisol, a chostau Adleoli:

- Y terfyn grant uchaf ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl a Grant Addasu Dewisol yw £36,000.
- Mae'r £5,000 cyntaf o unrhyw gais yn cael ei ddiystyru o unrhyw gostau y gellir eu codi.
- Bydd cynadleddau achos yn cael eu cynnal ar gyfer grantiau sy'n mynd dros y swm hwn i asesu pa mor ymarferol a dichonol ydynt yn ymarferol.
- Cyfrifir grantiau adleoli fel:
    - 3% o unrhyw eiddo sy'n werth £225,000.
    - 2% ychwanegol ar gyfer unrhyw werth uwchlaw hyn.
    - Darpariaethau i dalu ffioedd rhesymol.

**Blaenoriaethu**
Mae'r system hon ond yn berthnasol i'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol a'r ffordd y maent yn nodi'r ymholiad/atgyfeirio neu'r cais i'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol. Mae gan unrhyw berson sy'n teimlo ei fod wedi cael cam gan benderfyniad mewn perthynas â Statws Blaenoriaeth yr hawl i apelio i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa Dociau, Subway Road, Y Barri CF63 4RT.

***Llwybr Carlam neu Atgyfeiriadau Uchel***
1. Amgylchiadau eithriadol lle mae gwaith addasu mawr yn hanfodol ar gyfer rhyddhau yn ddiogel o'r ysbyty ac nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith:
    - Iechyd
    - Grantiau Prosiect Addasiadau Ymateb Cyflym neu
    - Dewisiadau Gwaith Bach y Gwasanaethau Cymdeithasol.
2. Lifftiau grisiau/lifftiau llawr sydd eu hangen ar frys lle na ellir sicrhau preifatrwydd ar gyfer triniaeth ar gyfer gofal A lle mae risg uchel i iechyd y cleient neu risg diogelwch i'r gofalwr. *(e.e. Clefyd y galon difrifol, salwch angheuol lle mae angen hanfodol i arbed egni, cyflyrau niwrolegol sy'n datblygu'n gyflym fel clefyd niwronau motor a rhai mathau o sglerosis ymledol.)*
3. Sefyllfaoedd amlochrog eithriadol lle byddai'r dewis arall yn golygu derbyn i ofal.

***Atgyfeiriadau Safonol***

***Categori un***
1. Salwch sy'n cyfyngu ar fywyd sydd ddim yn sbarduno categori llwybr carlam ond lle nodir datrysiad cynnar (e.*e., Clefyd yr arennau, cyflyrau datblygedig y galon, yr ysgyfaint a niwrolegol.*)

2. Cyflyrau sydd angen triniaeth feddygol gartref a lle byddai'r cyflwr yn gwaethygu oherwydd diffyg darpariaethau. *(e.e. Arthritis gwynegol lle mae cyflwr y cymalau yn brif ffocws, ecsema / psoriasis difrifol neu glefyd / dirywiad arall y croen neu'r meinwe sy'n gofyn am gael cawod neu ymolchi dyddiol i osod y driniaeth.*
3. Rheoli anymataliaeth y coluddyn.
4. Rheoli clwyfau agored/heintiedig hirdymor (oni bai y cynghorir yn erbyn gwneud hyn*).*
5. Darpariaethau diogelwch oherwydd angen ymddygiadol, sbectrwm awtistig neu Henoed Bregus eu Meddwl.
6. Gosod rampau, lle mae'r cleient yn gwbl ddibynnol ar gadair olwyn (cadeiriau olwyn wedi'u pweru neu fawr).
7. Angen brys am loriau caled sy'n hanfodol ar gyfer trosglwyddo diogel a lle mae'r cleient yn gwbl ddibynnol ar gadair olwyn.

***Categori dau***

1. Cyflyrau dirywiol cynnar i gyfnod canol o bob math sydd angen ateb wedi'i gynllunio i anhawster gweithredol.
2. Cyflwr ôl-lawfeddygol/trawmatig lle gellir cynnal datrysiadau/gweithdrefnau dros dro neu interim yn ddiogel yn y tymor canolig. (*e.e. byw ar y llawr gwaelod dros dro)*
3. Gosod rampiau lle bydd darpariaeth dros dro yn diwallu angen yn ddiogel yn y tymor canolig a gellir eu darparu yn gost-effeithiol.

***Categori tri***

1. Addasiadau i reoli hylendid personol sy'n gofyn am ateb wedi'i gynllunio i anhawster gweithredol ac nad yw'n gysylltiedig ag angen meddygol i ymolchi.
2. Gosod rampiau i'w defnyddio gyda chadeiriau olwyn tramwyo lle mae'r person yn cadw rhywfaint o allu i gerdded a dringo camau/grisiau.
3. Addasiadau gwresogi nad ydynt yn cael eu diwallu gan ffynonellau cyllid eraill.
4. Golau ychwanegol nad yw'n fater brys.

***Blaenoriaethu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl***

Mae'r Gwasanaeth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth blaenoriaeth i'r atgyfeiriadau hynny y nodwyd eu bod yn rhai 'Llwybr Carlam' neu 'Gategori 1'. Gan dybio bod y cais yn cael ei ystyried yn angenrheidiol ac yn briodol, ac yn rhesymol ac yn ymarferol, bydd yr amser a gymerir i gwblhau addasiadau bob amser yn dibynnu ar:

- Natur a chymhlethdod yr addasiad arfaethedig.
- Gwerth yr addasiad arfaethedig.
- Cyflwr yr eiddo a'r gallu i'w addasu.

## 7. Yr hyn na ellir defnyddio grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar ei gyfer...

Gellir defnyddio'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Addasu Dewisol ar gyfer llawer o bethau, ond nid yw'r canlynol yn bosibl trwy amodau'r grantiau:

- Nid oes cyfrifoldeb ar y grantiau i ddarparu cyfleusterau i hyrwyddo datblygiad ymgeisydd.
- Ni ellir eu defnyddio i oresgyn problemau cymdeithasol neu economaidd. Mae hyn yn cynnwys gorlenwi.
- Yn seiliedig ar ganllawiau 20/02 Llywodraeth Cymru, ni ddarperir man tawel ychwanegol y tu mewn na'r tu allan i'r annedd bresennol.
- Ni ellir eu hystyried ar gyfer darparu estyniad os yw'n rhesymol defnyddio ôl troed yr eiddo presennol. Os yw'n rhesymol ac yn ymarferol defnyddio'r ôl troed presennol i ddiwallu anghenion y cleient ond nad yw'r ymgeisydd yn cytuno â'r cynlluniau, bydd y cais am grant yn cael ei ganslo.
- Os bydd ymgeisydd yn cysylltu â'r Cyngor gyda chynlluniau ar gyfer estyniad i'r eiddo sydd wedi eu cymeradwyo gan Gynllunio a Rheoli Adeiladau ac a fydd yn cael ei ariannu gan yr ymgeisydd ac nid cymorth grant, bydd y Cyngor yn ystyried y cynllun hwn wrth addasu'r eiddo. Yn y sefyllfa hon, dim ond gosodiadau, ffitiadau ac offer y bydd grantiau'n eu hariannu. Ni allant ariannu gwaith strwythurol sy'n ymwneud â'r estyniad newydd.

## 8. Rheoli Risg

Gellir defnyddio Gwasanaeth Cymorth y Cyngor gyda chytundeb a darpariaeth gwasanaethau'r cyngor. Bydd gan bob gwasanaeth a gynigir gan y cyngor ei gynllun rheoli risg ei hun, sy'n dod i rym cyn gynted ag y gwneir ymholiad.

## 9. Meini Prawf Arweiniol Pellach

Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach yn y dogfennau canlynol:

- Canllaw Polisi Cymorth Byw'n Annibynnol Cyngor Bro Morgannwg.
- Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg: Canllawiau ar gyfer addasu cartrefi pobl ag anghenion byw annibynnol

## 10. Cymeradwyo ac Adolygu'r Polisi

| | |
|---|---|
| Cymeradwywyd y Polisi gan: | Cabinet |
| Dyddiad Cymeradwyo: | 19 Hydref 2023 |
| Amlder Adolygu: | Bob blwyddyn |
| Dyddiad Adolygu'r Polisi: | 19 Hydref 2024 |
| Swyddog(ion) Cyfrifol: | Phil Chappell, RhG Adfywio, Andrew Cole, RhG Gwasanaethau Ardal Leol |